

ADRODDIAD I GYD-BWYLLGOR CORFFOREDIG Y GOGLEDD

07/10/2022

Teitl: Rhagolwg o wariant 2022/23 Cyd-Bwyllgor Corfforedig y Gogledd

Awduron: Dewi A Morgan, Prif Swyddog Cyllid y CBC

Dafydd L Edwards, Swyddog Arweiniol y Prosiect CBC

Sian Pugh, Cyfrifydd Grŵp y CBC

1. PWRPAS YR ADRODDIAD

- 1.1 Pwrpas yr adroddiad hwn yw darparu rhagolwg o wariant y Cyd-Bwyllgor Corfforedig (CBC) ar gyfer 2022/23.
- 1.2 Er mwyn gweithredu'n effeithiol, mae angen i'r Cyd-Bwyllgor fod yn ymwybodol o'i sefyllfa ariannol yn erbyn ei gyllideb flynyddol gymeradwy.

2. Y PENDERFYNIADAU A GEISIR

- 2.1 **Nodi a derbyn rhagolwg o wariant y Cyd-Bwyllgor Corfforedig ar gyfer 2022/23 fel y cyflwynir yn Atodiad 1.**
- 2.2 **Bod tanwariant ar ddiwedd y flwyddyn ariannol yn cael ei neilltuo i gronfa wrth gefn ar gyfer ariannu costau unwaith ac am byth yn y dyfodol.**

3. Y RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

- 3.1 Nodi tanwariant a ragwelir o £59,777 yn erbyn ei gyllideb yn 2022/23, ac i'r tanwariant yma gael ei drosglwyddo i gronfa wrth gefn i'w neilltuo ar gyfer ariannu costau unwaith ac am byth yn y dyfodol.

4. CEFNDIR

- 4.1 Yn ei gyfarfod ar 28 Ionawr 2022, cymeradwyodd y Cyd-Bwyllgor Corfforedig ei gyllideb ar gyfer 2022/23.
- 4.2 Parheir i fonitro ac adolygu'r gyllideb drwy gydol blwyddyn ariannol 2022/23, a chyflwynir adroddiad chwarter tri i'r Cyd-Bwyllgor Corfforedig ym mis Ionawr 2023.

5. RHAGOLWG O WARIANT 2022/23 FESUL PENNAWD

- 5.1 Mae Atodiad 1 yn darparu dadansoddiad manwl o ragolygon gwariant fesul pennawd yn erbyn ei gyllideb flynyddol.
- 5.2 Rhagwelir y bydd y sefyllfa alldro net ar ddiwedd blwyddyn ariannol 2022/23 yn danwariant o £59,777.

Gweithwyr

- 5.3 Rhagwelir tanwariant o £49,700 ar y pennawd gweithwyr ar gyfer 2022/23.
- 5.4 Roedd y gyllideb gweithwyr wedi ei selio ar gyflogi/secondio dau weithiwr yn y maes Trafnidiaeth o Gorffennaf 2022 a tri gweithiwr yn y maes Cynllunio Strategol o Rhagfyr 2022. Nid oes penodiadau wedi eu gwneud hyd yma, ond rydym wedi amcanu'r costau o £49,240 (Cynllunio Strategol) a £33,820 (Trafnidiaeth) yn seiliedig ar i'r cyflogi/secondio ddechrau o Ionawr 2023. Yn ogystal, yn ei gyfarfod ar 22 Gorffennaf 2022, penderfynwyd cyflwyno cais i Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru iddynt ryddhau rhan o amser eu Cyfarwyddwr Portffolio i gyflawni rôl Prif Weithredwr y CBC, ar sail dros-dro hyd at Mawrth 2023. Mae'r amcan gost o £33,330 yn cynnwys amser y Prif Weithredwr am ddau ddiwrnod yr wythnos ynghyd â chefnogaeth y Chynorthwydd Gweithredol am un diwrnod yr wythnos.
- 5.5 Mae cost lwfansau aelodau llyg Is Bwyllgor Archwilio a Llywodraethu y Cyd-Bwyllgor yn seiliedig ar i ddau bwyllgor gael ei gynnal erbyn diwedd y flwyddyn ariannol.

Teithio

- 5.6 Mae'r amcan gost o £1,500 yn seiliedig ar amcangyfrif o lwfansau teithio hanfodol a chynhaliaeth staff a fydd ei angen yn ystod y chwe mis nesaf, sydd yn rhoi tanwariant o £2,500 ar y pennawd Teithio yn 2022/23.

Cyflenwadau a gwasanaethau

- 5.7 Rhagwelir tanwariant o £45,000 ar y pennawd cyflenwadau a gwasanaethau ar gyfer 2022/23. Mae £1,000 o danwariant ar bennawd cyflenwadau amrywiol, £4,000 o danwariant ar y pennawd ymgysylltu a chyfarfodydd a £40,000 o danwariant ar y pennawd ymgynghorwyr allanol.

Gwasanaethau Cefnogol

- 5.9 Rhagwelir tanwariant o £3,506 ar y pennawd gwasanaethau cefnogol ar gyfer 2022/23. Mae'r costau Cyllid yn cynnwys amser Swyddog Arweiniol y Prosiect CBC, ac mae'r rôl hynny wedi parhau yn hirach na'r hyn â ragwelwyd yn wreiddiol. Mae tanwariant o £11,008 ar y pennawd Cefnogaeth Corfforaethol oherwydd lleihad yn y niferoedd y cyfarfodydd ffurfiol, a lleihad o £2,677 ar y pennawd Technoleg Gwybodaeth. Gall cost y gefnogaeth cyfreithiol gynyddu pe byddai angen mewnbwn cyfreithiol i gynlluniau Trafnidiaeth a Chynllunio cyn diwedd y flwyddyn ariannol.

Treth ar Werth (TAW)

- 5.10 Yn wreiddiol, roedd Llywodraeth Cymru yn disgwyl i Lywodraeth San Steffan ddeddfu i roi statws adran 33 i'r cydbwyllgorau corfforedig, ac i hynny ddod i rym ar 1 Rhagfyr, ond erbyn hyn mae Llywodraeth Cymru yn rhagweld oediad nes 1 Mawrth 2023. Golyga hyn na fydd modd ad-hawlio TAW ar unrhyw drafodion ariannol sy'n perthyn i'r cyfnod cyn Mawrth 2023. Rydym yn amcanu y bydd £40,929 o TAW ddim yn gallu cael ei ad-hawlio ar gyfer y trafodion a fydd yn cymryd lle yn ystod cyfnod yma.

6. CYFRANIADAU PARTNERIAID

- 6.1 Awgrymir i gyfraniadau'r partneriaid drwy ardoll barhau ar lefel y gyllideb yn 2022/23, gyda'r gwarged o £59,777 gael ei drosglwyddo i gronfa wrth gefn.

7. Ymgynghoriadau a gynhaliwyd

- 7.1 Cyflwynwyd yr atodiad, ynghyd â chrynodeb o gynnwys yr adroddiad hwn, i Brif Swyddogion Cyllid ('Swyddog Adran 151') y saith awdurdod ar 16 Medi 2022, a daethpwyd i gydsyniad ar y ffordd ymlaen.

ATODIADAU

Atodiad 1 - Cyllideb Refeniw 2022/23 Cyd-Bwyllgor Corfforedig y Gogledd – Adolygiad Medi 2022.

YMATEB Y SWYDDOGION STATUDOL:

- i. **Swyddog Monitro:**
Dim sylwadau l'w hychwanegu o safbwynt priodoldeb.
- ii. **Swyddog Cyllid Statudol:**
Awdur yr adroddiad hwn.